


DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adeiladu Lleoedd Gwell

## Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair

Creu lleoedd a'r adferiad Covid-19

Mis Gorffennaf 2020

# Rhagair gan y Gweinidog

Mae pandemig Covid-19 a'n hymateb ar y cyd i'r materion sy'n codi yn ei sgil yn un o'r heriau mwyaf cymhleth mewn cenhedlaeth. Bu'n rhaid inni oll wneud pethau'n wahanol, meddwl mwy am ein gweithredoedd, a gweithredu mewn ffordd ofalus a sensitif i'r rhai o'n hamgylch.

Rhagwelir y bydd canlyniadau economaidd y pandemig yn ddifrifol, gan effeithio ar bob sector, gan gynnwys y rhai ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig.

Wrth inni adfer yn araf o'r argyfwng hwn, mae'n rhaid inni gydnabod anghenion ein cymunedau a sicrhau ein bod yn cadw elfennau gorau'r newidiadau sydd wedi digwydd o'n hamgylch, gan gynnwys y ffordd rydym wedi ymddwyn ac wedi ymateb. Mae angen adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd cynaliadwy arnom.

Rydym i gyd wedi treulio mwy o amser yn ein cymdogaethau yn ystod wythnosau'r cyfyngiadau symud a gall pawb werthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng cael amgylchedd o ansawdd i fyw, gweithio ac ymlacio ynddo a'r ffordd y gall cael ein hatal rhag gweld ein ffrindiau a'n teulu olygu y gall amgylchedd gwael, heb fawr ddim mynediad at nwyddau, gwasanaethau na mannau gwyrdd lleol, os o gwbl, gael effaith tu hwnt o niweidiol ar ein hiechyd a'n lles meddyliol a chorfforol, yn ogystal â'n gallu i ddiogelu ein bywiolaethau.

Yn awr, yn fwy nag erioed, mae angen inni feddwl am leoedd a chreu lleoedd. Dyma fydd ein gwerth creiddiol yn y gwaith a wnawn i sicrhau adferiad yng Nghymru. Caiff y camau adfywio a gymerwn ar bob lefel eu llywio gan ffordd integredig o feddwl yn hytrach na'r hyn sy'n gyfleus yn y byrdymor a all arwain at ganlyniadau negyddol yn y tymor hwy.

Hyd yn oed ar yr adeg hon o galedi economaidd i lawer yn y diwydiant datblygu, ni allwn ddibynnu ar ddatblygiadau o ansawdd gwael a adeiledir yn gyflym ar safleoedd nad ydynt yn gynaliadwy. Mae'n rhaid inni ddysgu o'r gorffennol a sicrhau, mewn byd ar ôl Covid-19, mai llesiant pobl sy'n ganolog iddo.

Mae hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth inni ailosod y cloc a meddwl eto am y lleoedd rydym am fyw, gweithio a chwarae ynddynt. Mae angen inni ailadeiladu cymdeithas wyrddach a glanach gyda datgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol yn ganolog iddi, sy'n parchu ein hamgylchedd, a hefyd yn rhoi lleoedd da i bobl fyw ynddynt, sy'n hygyrch ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC 10) yn arwain y ffordd yn hyn o beth ac yn cynnwys yr egwyddorion a'r polisïau sydd eu hangen arnom i adfer o'r sefyllfa hon mewn modd cadarnhaol, gan roi egwyddorion creu lleoedd wrth wraidd datblygiadau'r dyfodol. Mae'r canllawiau hyn yn tynnu sylw at y blaenoriaethau polisi mwyaf perthnasol a'r camau gweithredu a fydd yn helpu'r adferiad.

Ni all hyn gael ei wneud gennym ni ar ein pennau ein hunain. Mae angen i'r diwydiant datblygu, awdurdodau cynllunio lleol, cyrff cyhoeddus, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i gyflawni hyn, gan gydnabod bod angen newid. Gallwn achub ar y cyfle hwn os ydym oll yn ymrwymedig i gyflawni datblygiadau o ansawdd uchel yn y man cywir.

Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn chwarae ei rhan yn y gwaith o gefnogi ffyniant lleoedd a helpu'r adferiad hwn sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n cael ei arwain gan egwyddorion creu lleoedd. Mae'r ddogfen hon yn dechrau nodi'r camau gweithredu i gyflawni hyn y bydd yn rhaid inni adeiladu arnynt. Mae gan bawb ei ran i'w chwarae er mwyn sicrhau bod cymunedau'r dyfodol yn cael budd o ragweledigaeth heddiw.





**Julie James AS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

OGL © Hawlfraint y Goron 2019
WG40750 ISBN digidol 978-1-80038-866-6

# Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon yn amlinellu blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu i gymryd camau gweithredu yn ystod y cyfnod adfer ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Dylai'r system gynllunio gael lle canolog wrth ystyried materion ynglŷn â'r amgylchedd adeiledig a naturiol sydd wedi codi o'r sefyllfa hon.**

Mae gan gynllunwyr rôl gydgysylltu flaengar ac allweddol i'w chwarae. Mae hyn yn ymwneud â mwy na swyddogaethau statudol awdurdodau cynllunio lleol yn unig. Mae sgiliau cynllunwyr yn golygu y gallant fod yn rhagweithiol wrth roi polisïau ar waith i helpu yn ystod y cyfnod adfer, gan nodi cyfleoedd, a dwyn pobl ynghyd. Mae cynllunwyr mewn sefyllfa unigryw i feddwl yn systemig a gweithio'n strategol, i lunio'r weledigaeth ar gyfer lleoedd gwell ac arwain newid cadarnhaol.

Yn y papur hwn, rydym yn tynnu sylw at y polisïau cynllunio presennol allweddol a'r adnoddau y dylai pob sector eu defnyddio yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, gan gydnabod yr angen o hyd i gynllunwyr weithredu o fewn cyd-destun ehangach blaenoriaethau a chamau gweithredu ar bob graddfa.

Nid yw cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru tuag at leoedd gwell a chreu lleoedd wedi newid. Yn wir, mae argyfwng y pandemig wedi tanlinellu'r angen am leoedd o ansawdd da i bobl fyw, gweithio ac ymlacio ynddynt. Mae hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd ansawdd ein hamgylcheddau byw a gweithio a chymaint yn bwysicach ydynt wrth inni fynnu cael mwy o hyblygrwydd i gefnogi anghenion gweithio, byw a dysgu newydd. Er bod angen adferiad economaidd yn ddi-os, y dylai'r system gynllunio ei hwyluso, ni ddylai hyn fod ar draul ansawdd, o ran iechyd a lles nac mewn ymateb i argyfyngau hinsawdd a byd natur.

Os ydym yn rhoi'r gorau i'n hymrwymiad polisi i ansawdd, rydym mewn perygl o wneud yr un camgymeriadau eto ag a wnaed yn y gorffennol drwy ganiatáu datblygiadau ar safleoedd anghynaliadwy mewn ardaloedd lle nad oes seilwaith na chysylltiadau i'n galluogi i fyw bywydau egnïol ac iach a hyrwyddo llesiant ym mhob ystyr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae ei rhan wrth arwain a chefnogi'r agenda hon. Byddwn yn defnyddio ein holl bwerau i wrthod cynigion ar gyfer datblygiadau gwael drwy weithdrefnau'r cyfarwyddiadau hysbysu neu drwy ein rôl i wneud sylwadau ar strategaethau, polisïau a dyraniadau cynlluniau datblygu lleol nad ydynt yn cefnogi egwyddorion creu lleoedd. Byddwn hefyd yn annog ymgysylltu cadarnhaol cynnar ar gynigion a chynlluniau ac yn defnyddio ein hadnoddau i ysbrydoli arferion da.

Yn hyn o beth, mae gan y diwydiant datblygu ran i'w chwarae o ran gwella dyluniad ac ansawdd cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno o dan y system gynllunio. Mae angen gofyn inni ein hunain "Allwn i fyw fy holl fywyd yma? Prawf cyntaf da yw "A fydd y lle hwn yn diwallu fy anghenion ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol?" Yna, bydd ymgysylltu ystyrlon â chymunedau a'r awdurdod cynllunio lleol ar ddyluniad cynllun. Yn olaf, bydd ymrwymiad i fwrw ymlaen â rhwymedigaethau seilwaith yn mynd tipyn o'r ffordd i sicrhau y caiff y datblygiadau a ragwelir eu cyflawni ac y manteisir i'r eithaf ar y buddiannau ehangach i'r cyhoedd.

Dylai awdurdodau cynllunio lleol fod yn ddi-ofn o ran eu gweledigaethau ar gyfer y dyfodol a nodir ganddynt yn eu cynlluniau datblygu lleol. Ni ddylai cynlluniau gyflwyno strategaethau gofodol anghynaliadwy na bod yn union yr un fath â chynlluniau awdurdodau cyfagos. Yn hytrach, dylent fynd ati i goleddu'r agenda creu lleoedd a nodir yn PCC. Dylai pob cynllun fod yn unigryw i ardal, gan nodi ei chymeriad, ei chryfderau a'r meysydd y mae angen eu gwella a nodi polisïau sy'n gwella'r rhain.

## Cymorth Polisi Llywodraeth Cymru

Gall swyddogion polisi cynllunio Llywodraeth Cymru, sydd wedi cael profiad mewn amrywiaeth o feysydd polisi ac wedi meithrin dealltwriaeth ohonynt, roi cymorth uniongyrchol i awdurdodau cynllunio lleol o ran cymorth polisi, drwy feithrin cysylltiadau â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, a dod â llunwyr polisi ynghyd i rannu syniadau, annog arloesedd a rhoi cymorth.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cysylltwch â ni yn uniongyrchol: PlanningPolicy@gov.wales



# Ein Hymrwymiad i Leoedd Gwell, Creu Lleoedd, Canlyniadau Ansawdd a Dylunio Da

**Mae lleoedd da yn ffrwyth gwaith cynllunio da sy'n llwyr dderbyn egwyddorion creu lleoedd.**

Drwy fabwysiadu egwyddorion creu lleoedd bydd llawer o fuddiannau sydd nid yn unig yn helpu i wella ansawdd bywyd, ond sydd hefyd yn ein helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, lleihau ein hôl troed carbon a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol at y dyfodol. Mae'n rhaid i'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gael eu cydnabod ac ni ddylai ein gweithredoedd gael eu glastwreiddio.

Mae'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol a nodir yn PCC yn berthnasol iawn ar yr adeg hon.

### Creu a Chynnal Cymunedau

- Galluogi'r Gymraeg i ffynnu
- Dwyseddau datblygu priodol
- Cartrefi a swyddi i fodloni anghenion cymdeithas
- At ddefnydd cymysg
- Yn cynnig profiadau diwylliannol
- Cyfleusterau a gwasanaethau o fewn y gymuned

### Datblygu ein Heconomi mewn Dull Cynaliadwy

- Meithrin gweithgarwch economaidd
- Galluogi cyfathrebu hawdd
- Cynhyrchu ei ynni adnewyddadwy ei hun
- Yn fywiog a deinamig
- Yn addasu i newid
- Yn croesawu technoleg ddoeth ac arloesol

### Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau

- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol
- Rhwystro gwastraff
- Blaenoriaethu'r defnydd o dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes ac adeiladau sy'n bodoli eisoes
- Rhyddhau posibiliadau ac adnewyddu
- O safon uchel ac wedi'i greu i bara am oes



## Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd


### Gwarchod yr Amgylchedd cymaint â Phosibl a Chyfyngu ar Effaith Amgylcheddol

- Bioamrywiaeth ac ecosystemau cadarn
- Tirweddau unigryw ac arbennig
- Seilwaith gwyrdd integredig
- Seinweddau priodol
- Lleihau risgiau amgylcheddol
- Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy
- Aer glân
- Lleihau llygredd cyffredinol
- Yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- Yn meddu ar amgylcheddau hanesyddol unigryw ac arbennig

### Hwyluso Amgylcheddau Hygyrch ac Iach

- Mannau gwyrdd hygyrch o safon uchel
- Hygyrch trwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Heb fod yn ddibynnol ar geir
- Lleihau'r angen i deithio
- Cynnig mynediad cyfartal
- Diogel a chynhwysol
- Cefnogi poblogaeth amrywiol
- Cysylltiadau da
- Mynediad cyfleus at nwyddau a gwasanaethau
- Hyrwyddo iechyd a lles corfforol a meddyliol

Mae creu lleoedd yn digwydd ar y lefelau strategol a lleol, drwy broses y cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu; mae gan bob un ei ran i'w chwarae. Mae gan gynllunwyr rôl y tu hwnt i'r prosesau statudol i ymgysylltu â rhoi cynlluniau ar waith er mwyn sicrhau bod y canlyniadau creu lleoedd cenedlaethol yn cael eu sicrhau'n ymarferol. Gall sgiliau cynllunwyr helpu i sicrhau newid.



## Cymorth gan Gomisiwn Dylunio Cymru

DESIGN COMMISSION FOR WALES
COMISIWN DYLUNIO CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru yn noddi Comisiwn Dylunio Cymru (y Comisiwn) sy'n helpu awdurdodau cynllunio lleol, timau dylunio a datblygwyr i sicrhau lleoedd gwell drwy waith dylunio da.

Mae'r Comisiwn yn darparu gwasanaethau i gleientiaid i ddatblygu briffiau sydd â ffocws ar greu lleoedd a chymhwyso polisi sy'n esiampl i eraill yn ymarferol. Mae'n cynnig hyfforddiant a gwasanaeth am ddim i bob sector. Mae gwasanaethau'r Comisiwn ar gael ledled Cymru, ar-lein ac wyneb yn wyneb.

Rydym yn gweithio gyda'r Comisiwn ar lunio gwasanaeth adolygu dylunio strategol penodol ar gyfer cynlluniau datblygu lleol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau creu lleoedd strategol yn helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

Anogir awdurdodau i ymgysylltu â'r Comisiwn ar gam cynnar er mwyn cael y cymorth mwyaf effeithiol:

Cysylltwch â: connect@dcfw.org a **029 2045 1964**

## Cynlluniau Datblygu

Mae'r ymateb i Covid-19 yn golygu bod angen inni gynllunio'n effeithiol ar gyfer argyfyngau yn y dyfodol ac edrych ar faterion yn yr hirdymor er mwyn gwella iechyd a lles i bawb. Yn y system gynllunio, ein cynlluniau datblygu lleol (CDLlau) yw'r ffordd orau o wneud hyn.

Mae angen CDLlau cyfredol fel mater o frys er mwyn gweithredu ar flaenoriaethau datblygu lleol a pholisïau cynllunio cenedlaethol yn lleol. Dylent gael eu paratoi neu eu disodli mor effeithlon â phosibl unwaith y bydd awdurdodau cynllunio lleol mewn sefyllfa i wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylent gyflwyno polisïau neu gynigion ar safleoedd nad ydynt yn hyrwyddo lleoedd da. Dylent fod yn unigryw, gydag ymdeimlad a dimensiwn gwirioneddol leol sy'n cynnig fframwaith strategol ar gyfer datblygu ardaloedd lleol, a hefyd ymateb i'r cyfle a roddir gan bolisïau cenedlaethol a deddfwriaeth. Mae PCC yn rhoi canllawiau helaeth ar y dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi polisïau drwy'r broses o lunio cynlluniau; gall tystiolaeth fod yn eang ei chwmpas, o ffynonellau sy'n bodoli eisoes ac nid o reidrwydd wedi'i chomisiynu'n benodol at ddibenion llunio cynllun.

Er bod angen i gynllun datblygu lleol adlewyrchu'r polisi cenedlaethol, dylai'r ffocws fod ar ymatebolrwydd lleol.

Yn achos rhai materion, mae angen ystyriaeth ar lefel ranbarthol. Bydd y Bil Etholiadau Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Datblygu Strategol gael ei baratoi ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru drwy Gyd-bwyllgor Corfforaethol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei gweithgarwch ymgysylltu ag awdurdodau cynllunio lleol i ganolbwyntio ar y materion a godir yn y ddogfen hon fel sail dros ein sylwadau ar bolisïau a chynigion drafft. Disgwyliwn weld arloesedd a chreadigrwydd mewn cynlluniau datblygu i sicrhau lleoedd gwell. Rydym yn annog syniadau newydd wrth lunio polisïau sy'n adeiladu ar y dystiolaeth a'r wybodaeth sy'n bodoli, gan ei chymhwyso neu ei haddasu at amgylchiadau lleol. Er bod rhannu arferion da ymhlith llunwyr cynlluniau yn ddefnydd da o adnoddau, ni ddylai hynny arwain at ddefnyddio cynlluniau sy'n union yr un fath â'i gilydd mewn amrywiaeth o leoliadau unigryw. Mae egwyddorion creu lleoedd yn gofyn am strategaethau, polisïau a dulliau cynllunio sy'n wirioneddol leol.

Mae rhagor o ganllawiau ar baratoi CDLlau ar gael yn y *Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu*[1].

1 https://llyw.cymru/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020



## National Development Framework



Mae disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r FfDC cyntaf ar ddechrau 2021. Mae'r pandemig wedi achosi oedi o tua phedwar mis yn y broses. Mae cynllun datblygu gofodol cenedlaethol yn hanfodol i helpu i lunio'r adferiad drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn ei gyfanrwydd.

Bwriadwn wneud nifer o newidiadau i'r FfDC drafft yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn 2019. Byddwn yn gwahodd y Senedd i graffu ar y newidiadau hyn yn yr hydref, pan fyddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n dangos sut yr ystyriwyd yr ymatebion gennym.

Mae'r oedi yn y broses wedi rhoi cyfle i fyfyrio ar yr FfDC drafft ac ystyried pa mor addas ydyw o ran llywio ein hadferiad yn sgil Covid-19. Yn gyffredinol, teimlwn fod yr FfDC drafft yn ymateb yn dda i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, gyda'i flaenoriaethau ar gyfer datgarboneiddio, cymunedau cydlynol, canol trefi ffyniannus a seilwaith gwyrdd. Mae'r polisïau gofodol yn cefnogi twf mewn dinas-ranbarthau, mewn nifer o drefi sy'n bwysig yn rhanbarthol a chymunedau arfordirol ym mhob rhanbarth (y mathau o leoedd y mae ymchwil yn awgrymu y gallant ddioddef yn economaidd o ganlyniad i Covid-19) ac maent yn cefnogi ardaloedd gwledig cadarn a chydnerth. Bydd rhai o'r newidiadau roeddem eisoes yn eu cynllunio yn bwysig iawn mewn meysydd megis teithio llesol a seilwaith digidol.

Bydd cyhoeddi'r FfDC yn darparu elfen goll bwysig o'r polisi cynllunio. Bydd yn rhoi eglurder ar flaenoriaethau gofodol Llywodraeth Cymru a'r materion sydd o bwys cenedlaethol, yn ein barn ni. Bydd rhoi'r FfDC ar waith yn helpu i lywio'r broses o gyflawni Cynlluniau Datblygu Strategol drwy'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol newydd (gweler uchod). Bydd cefnogi gweithio rhanbarthol cryfach yn galluogi CDLlau i ganolbwyntio ar y materion unigryw lleol, a'r patrymau, y tueddiadau a'r safleoedd y mae angen rhoi sylw iddynt.

Bydd yr FfDC yn helpu i wneud CDLlau yn fwy uchelgeisiol a chreadigol; bydd yr FfDC ei hun yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth, felly bydd angen treulio llai o amser yn paratoi papurau cefndir a gall mwy o amser ac ymdrech gael eu neilltuo i drafodaethau â chymunedau a datblygwyr, a'r gwaith pwysig o wneud lleoedd gwell yn lleol. Mae'r adferiad yn sgil Covid-19 yn rhan o'r dasg honno. Drwy'r FfDC, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynlluniau cynaliadwy sy'n helpu ardaloedd i adfer, bod yn fwy cydnerth a ffynnu ar ôl y pandemig hwn.

Gwyddom y bydd yr FfDC yn newid mawr i'n system gynllunio ac edrychwn ymlaen at ei roi ar waith ar y cyd â'n partneriaid felly mae'n helpu i sicrhau'r newid cadarnhaol ym mhob rhan o'r wlad.

## Rheoli Datblygu

Mae sefyllfa Covid-19 wedi dangos y gellir gwneud penderfyniadau'n gyflym ac yn effeithiol a hefyd feddwl am lesiant a diogelwch pobl. Dylai hyn barhau o ran y broses Rheoli Datblygu wrth inni ddechrau dychwelyd i weithredu'r system gynllunio mewn ffordd arferol.

Er bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa newidiadau sydd eu hangen i hawliau datblygu a ganiateir i helpu'r adferiad, ni fydd yn gwneud hyn ar draul creu lleoedd da. Dylai penderfyniadau ynghylch rheoli datblygu ganolbwyntio ar greu lleoedd llesol iach a ffyniannus gyda ffocws ar ddyfodol cadarnhaol a chynaliadwy i'n cymunedau.

Gall PCC a'r FfDC gael eu defnyddio'n uniongyrchol yn y broses gwneud penderfyniadau, yn enwedig lle mae CDLl yn fud ar unrhyw fater neu nad yw'n gyfredol mwyach. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi penderfyniadau a wneir yn y cyd-destun hwn, yn enwedig yn y byrdymor nes bod CDLl wedi'i fabwysiadu.

Dylid parhau i ddefnyddio ystyriaethau perthnasol yn y broses hon er mwyn cymeradwyo a gwrthod ceisiadau nad ydynt yn dangos egwyddorion creu lleoedd da. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried yn eang beth sy'n berthnasol i gais penodol a chymhwyso hyn at eu hystyriaethau, yn enwedig pan fydd y canlyniad yn fuddiol o ran creu lleoedd gwell.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull gweithredu hwn lle bynnag y gellir dangos ei fod yn fuddiol i gymunedau a hefyd yn gwneud y broses gwneud penderfyniadau mor effeithiol â phosibl.



## Creu Lleoedd yng Nghymru

Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

Mae Creu Lleoedd Cymru yn bartneriaeth newydd o sefydliadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig sy'n dod ynghyd i helpu i sicrhau ansawdd ym mhob rhan o'r sector er mwyn hyrwyddo canlyniadau gwell i bawb.

Mae camau cychwynnol y gwaith yn cynnwys creu siarter lle mae'r sefydliadau dan sylw yn ymrwymo i hyrwyddo egwyddorion creu lleoedd yn eu gwaith neu'n addo eu cyflawni.

Mae camau o'r gwaith yn y dyfodol yn cynnwys rhoi hyfforddiant perthnasol i gynllunwyr a gweithwyr proffesiynol eraill, rhannu arferion da a chreu canllawiau ac adnoddau ar agweddau penodol ar greu lleoedd.

Caiff Creu Lleoedd Cymru ei lansio gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol cyn hir a bydd canllaw byr sy'n cynnwys astudiaethau achos yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth neu gymryd rhan, cysylltwch ag Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru: PlanningPolicy@gov.wales



## Newid yn yr Hinsawdd a Datgarboneiddio

Y llynedd, datganodd Llywodraeth Cymru a llawer o awdurdodau lleol argyfwng hinsawdd. Bu'r stormydd a'r llifogydd mawr a effeithiodd ar gymaint o gymunedau ledled Cymru yn gynharach eleni yn arwydd difrifol o'r angen i weithredu ar fyrder i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu i'w effeithiau.

Cyhoeddwyd Argraffiad 10 o PCC ychydig cyn y datganiad o argyfwng hinsawdd. Mae PCC yn egluro mai diben y system gynllunio yw creu lleoedd cynaliadwy sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r argyfwng hinsawdd, ac mae PCC yn nodi fframwaith polisi uchelgeisiol a chynhwysfawr awdurdodau cynllunio i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.



Un o rolau strategol y system gynllunio yw cyfeirio twf tuag at leoliadau cynaliadwy ac atal datblygiadau sy'n dibynnu ar geir rhag cael eu creu. Mae hon yn un o egwyddorion allweddol PCC ac fe'i cefnogir drwy hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy, sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus o flaen cerbydau modur preifat.

Mae PCC yn nodi y dylid defnyddio'r hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy i leihau'r angen i deithio, atal datblygiadau sy'n dibynnu ar geir mewn lleoliadau anghynaliadwy, a chefnogi'r broses o gyflawni cynlluniau sydd wedi'u lleoli, eu dylunio a'u cefnogi gan seilwaith sy'n blaenoriaethu mynediad a symudiadau drwy deithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy.

Mae meysydd polisïau perthnasol eraill yn PCC sy'n ymwneud â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chreu lleoedd mwy cydnerth yn cynnwys:

- pwysigrwydd Cerbydau Allyriadau Isel Iawn, sy'n cynnwys cerbydau trydan, wrth ddatgarboneiddio trafnidiaeth,
- gofyniad ar awdurdodau cynllunio lleol i bennu targedau ar gyfer creu ynni adnewyddadwy mewn cynlluniau datblygu, yn ogystal â nodi ardaloedd gofodol lle y caiff datblygiadau ynni adnewyddadwy eu caniatáu,
- cyfyngu'n fawr ar echdynnu tanwyddau ffosil newydd,
- sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth (budd clir i fioamrywiaeth), cydnerthedd ecosystemau a seilwaith gwyrdd fel rhan o ddadlau o blaid atebion sy'n seiliedig ar natur,
- cyflwyno mesurau i ymgorffori egwyddorion economi gylchol, yn enwedig o ran adeiladu, a defnyddio'r amgylchedd adeiledig a thir, a rheoli adnoddau mwynol mewn ffordd gynaliadwy; a
- chyfeirio datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle ceir perygl llifogydd.

Y neges allweddol yw mai dull gweithredu sy'n seiliedig ar gynlluniau yw'r ffordd fwyaf effeithiol i'r system gynllunio wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Mae'n rhaid inni nodi camau allweddol o ran sicrhau'r newid i gymdeithas wedi'i datgarboneiddio sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni.

## Ystyried Iechyd a Lles ym mhob rhan o'r Broses Gynllunio

Mae argyfwng Covid-19 wedi pwysleisio pwysigrwydd ystyried iechyd a lles ym mhob rhan o'r system gynllunio er mwyn sicrhau bod cymunedau ledled Cymru yn iach, yn ffyniannus ac yn gynhwysol.

Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi ffyrdd o fyw iachach a lleihau anghydraddoldebau. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd uniongyrchol ac anuniongyrchol megis dyrannu tir ar gyfer cyfleusterau iechyd, sicrhau dyluniadau da a datblygiadau heb rwystrau, swyddi a sgiliau, gwella ansawdd aer, seinweddau a gwarchod a gwella mynediad at fannau hamdden a mannau gwyrdd naturiol. Gall y rhain gynnig buddiannau o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl, gwella lles a helpu i leihau anghydraddoldeb.

Mae llawer o ffactorau a rhyngweithiadau yn effeithio ar iechyd a lles. Felly, bydd cynnwys partneriaid eraill megis byrddau iechyd lleol, ac ymgysylltu â nhw, yn helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd a'u canlyniadau. Mae hyn yn llywio'r gwaith o baratoi CDLlau a all bennu polisïau lleol er mwyn sicrhau y caiff y cyfleoedd a'r buddiannau eu gwireddu ar lawr gwlad.

Mae amrywiaeth o adnoddau ar wahanol raddfeydd yn y system gynllunio a all ein helpu i ddeall iechyd a lles yn well. Er enghraifft, mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, y mae rhai awdurdodau cynllunio lleol eisoes yn eu cynnal, yn un adnodd sy'n ceisio sicrhau bod cynlluniau, polisïau a dyraniadau arfaethedig mor gynaliadwy â phosibl.

Mae ystyriaethau iechyd a lles wedi'u cyd-blethu drwy'r PCC cyfan. Ceir rhagor o ganllawiau ar sut i ymgorffori'r ystyriaethau hyn ym maes cynllunio yn *Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Canllaw ymarferol*[2], *Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant Gwell yng Nghymru*[3] a *Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol*.

[2] https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/files/1415/0710/5107/HIA_Tool_Kit_V2_WEB.pdf
[3] https://whiasu.publichealthnetwork.cymru/files/2915/3243/8664/planning_for_health_and_wellbeing_in_wales.pdf



# Blaenoriaethau Polisi a Chamau Gweithredu ar gyfer Lleoedd – Ystyriaethau ar ôl Covid-19

Mae PCC yn cynnwys datganiadau polisi gan Lywodraeth Cymru ar amrywiaeth o faterion a phynciau cynllunio; sy'n dal yn berthnasol a dylai awdurdodau cynllunio lleol a'r sectorau datblygu eu hystyried yn eu cyfanrwydd. Fodd bynnag, yn y cyfnod yn union ar ôl Covid-19, bydd meysydd polisi penodol y dylai ystyriaethau a chamau gweithredu ganolbwyntio arnynt, er mwyn sbarduno adferiad ym mhob un o'r colofnau datblygu cynaliadwy.

Mae'r ystyriaethau hyn yn dod o dan un o dri chategori:

1. Sut y gwnaethom brofi effeithiau uniongyrchol y cyfnod o gyfyngiadau symud oherwydd Covid-19 a'r newidiadau cadarnhaol parhaol y mae angen inni eu gweld mewn lleoedd ac fel rhan o ddatblygiadau newydd.
2. Y gwersi a ddysgwyd gennym dros y cyfnod hwn a sut y gallwn helpu i wneud lleoedd yn fwy cydnerth a gwella eu gallu i ymaddasu i bandemigau yn y dyfodol, pe baent yn digwydd eto.
3. Helpu'r adferiad ar ôl i'r pandemig fynd heibio ac ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio er mwyn sicrhau ei fod o fudd i bob rhan o gymdeithas ac yn ein helpu i ddatgarboneiddio, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a gwella iechyd a lles cyffredinol.

Mae PCC yn dangos bod meysydd polisi yn gweithio'n fwy effeithiol pan gânt eu hystyried gyda'i gilydd er mwyn cael y budd mwyaf posibl. Felly, rydym wedi penderfynu nodi materion allweddol sy'n dod â meysydd polisi unigol ynghyd er mwyn sicrhau bod camau gweithredu mor effeithiol â phosibl. Yr wyth mater yw:

- Cadw'n lleol: creu cymdogaethau
- Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ailddarganfyddir
- Adfywio canol ein trefi
- Lleoedd digidol - rhaff achub yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud
- Newid arferion gwaith: ein hangen am dir cyflogaeth yn y dyfodol
- Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru
- Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol
- Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles

Mae pob mater yn tynnu sylw at y pwyntiau perthnasol yn PCC, gyda sylwadau ar agweddau penodol ar y sefyllfa bosibl ar ôl pandemig Covid-19.

Drwy waith cynllunio effeithiol, gallwn greu Cymru fwy cydnerth lle y nodir anghydraddoldebau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ac yr eir i'r afael â nhw yn effeithiol er mwyn creu dyfodol mwy cydnerth a disglair i bawb. Mae hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i gynllunio i gael effaith gadarnhaol ar lesiant pobl yng Nghymru yn y dyfodol a dylai'r ystyriaethau polisi hyn gael eu cymhwyso ar unwaith er mwyn sicrhau ein bod yn newid yn y ffordd fwyaf gadarnhaol bosibl.

## Cadw'n lleol: creu cymdogaethau

Mae Covid-19 yn cael effaith sylweddol ar ein cymunedau a'r ffordd rydym yn byw ein bywydau. Drwy gydol argyfwng Covid-19, rydym i gyd wedi bod yn treulio mwy o amser gartref ac yn ein cymdogaethau lleol sydd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd lle rydym yn byw ac ansawdd yr amgylchedd o'n hamgylch. Mae'r argyfwng hefyd wedi rhoi pwyslais ychwanegol ar bwysigrwydd cartrefi diogel a fforddiadwy mewn lleoliadau da o ran iechyd a lles pobl.

Mae lleoliad, ansawdd, maint a nodweddion ein cartrefi wedi dylanwadu ar y ffordd rydym wedi ymdopi drwy gydol y cyfnod o dan gyfyngiadau symud. Mae ansawdd a hyblygrwydd ein hamgylchedd adeiledig a'r gallu i'w addasu wedi cael effaith enfawr ar y ffordd rydym yn darparu gofal iechyd ac addysg a chyflenwadau meddygol a bwyd. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi gweld pwysigrwydd gwasanaethau a seilwaith lleol, gyda phobl yn treulio mwy o amser yn eu cymdogaethau lleol. Disgwylir i benderfyniadau pobl i barhau i weithio gartref ac yn fwy lleol fod yn duedd hirdymor. Mae angen inni gynllunio ar gyfer y tueddiadau hyn a, hyd yn oed yn fwy na chynt, sicrhau ein bod yn adeiladu cartrefi a chymdogaethau sy'n lleoedd gwych i fyw ynddynt, gyda mynediad hawdd at wasanaethau a seilwaith a mannau gwyrdd priodol.

Mae cynhyrchu bwyd a chadwyni cyflenwi lleol wedi dod yn bwysig iawn mewn rhai ardaloedd, ac rydym yn tyfu mwy o'n bwyd ein hunain wrth i boblogrwydd rhandiroedd gynyddu. Gwelwyd hefyd ysbryd entrepreneuraidd lle mae cymunedau wedi dod ynghyd i ddosbarthu'r bwyd hwn a chefnogi busnesau lleol mewn cyfnod economaidd anodd. Mae'n rhaid inni gefnogi lleoliaeth o'r fath drwy'r system gynllunio drwy nodi mannau tyfu i gymunedau, yn ogystal â gwarchod ein tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas rhag datblygu.

Mae galluogi pobl i fyw mewn cartrefi wedi'u dylunio'n dda mewn lleoliad da sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn rôl allweddol i faes cynllunio. Mae adeiladu tai hefyd yn rhan bwysig o economi Cymru a gall darparu cartrefi newydd yn y sector tai cymdeithasol ac ar gyfer y farchnad wneud cyfraniad sylweddol at adferiad economaidd a chydlyniant cymdeithasol. Gyda'r ansicrwydd ynglŷn ag effaith y pandemig ar yr economi a swyddi a'r gallu cysylltiedig i ddod yn rhan o'r farchnad dai, mae'n rhaid inni gynyddu faint o dai a ddarperir drwy ganolbwyntio o'r newydd ar adeiladu tai cymdeithasol newydd a sicrhau nad yw pobl sy'n cysgu allan yn dychwelyd i'r strydoedd.

Rôl bwysicaf y system gynllunio yw llywio'r ffordd y mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu. Mae gan CDSau a CDLlau rôl hanfodol i'w chwarae o ran cyfeirio datblygiadau newydd, yn enwedig tai, i'r lleoliadau cywir. Gall blaengynllunio hefyd bennu ffactorau sy'n allweddol i lwyddiant lle, megis defnydd cymysg, mathau o dai (gan gynnwys tai cymdeithasol), agosrwydd i gyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus, dwysedd, y rhwydwaith strydoedd a mynediad at fannau gwyrdd a byd natur. Mae'r rhain yn agweddau allweddol ar greu lleoedd a adlewyrchir drwy bob rhan o PCC, gyda pholisi a chanllawiau penodol yn yr adran ar greu lleoedd yn strategol a'r adran ar dai.

Byddwn yn disgwyl i gynigion ar gyfer cymunedau newydd (mewn ardaloedd gwledig a threfol) a safleoedd tai integreiddio â'r gwasanaethau a'r seilwaith presennol a, lle y bydd angen darpariaeth ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiad, i hyn gael ei ddarparu. Bydd angen creadigrwydd ac arloesedd er mwyn i'r amrywiol asiantaethau, partneriaid seilwaith a darparwyr yn y sector cyhoeddus ddod ynghyd i ddarparu safleoedd gwirioneddol gynaliadwy. Dylai'r ddarpariaeth hon gael ei nodi ar y cyfle cyntaf posibl a dylai'r wybodaeth berthnasol fod ar gael i gymunedau yn ystod prosesau ymgysylltu ac ymgynghori ystyrlon.

Fel cynllun gofodol ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol yng Nghymru hyd at 2040, bydd yr FfDC yn rhoi tystiolaeth o'r angen am dai ar lefel genedlaethol a rhanbarthol a bydd yn dangos bod angen ffocws ar gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy a ddarperir. Er mwyn cefnogi strategaeth twf yr FfDC, caiff canllawiau newydd eu paratoi i helpu awdurdodau cynllunio lleol i lywio twf ac adfywio eu trefi a'u dinasoedd. Bydd hyn yn ymhelaethu ar egwyddorion strategol creu lleoedd yn yr FfDC ac yn rhoi canllawiau ar ddatblygu fframwaith gofodol i lywio twf ac adfywio.

# Gorchmynion Datblygu Lleol (GDLlau)

Mae GDLlau yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer mathau penodol o ddatblygu o fewn ardal benodol, yn amodol ar amodau a chyfyngiadau. Gall GDLl gyfrannu at ddatblygu economaidd ac adfywio lleol, gan helpu i wneud lleoedd yn fwy atyniadol a chystadleuol. Maent yn symleiddio'r broses gynllunio drwy gael gwared ar yr angen am geisiadau cynllunio, gan ganiatáu i ddatblygwyr weithredu'n gyflymach a chyda mwy o sicrwydd a lleihau costau ar yr un pryd.

Yng nghanol trefi, gall GDLlau helpu i fynd i'r afael â phroblem eiddo gwag er mwyn sicrhau canol trefi mwy hyfyw a ffyniannus. Gallant nodi'r hyn sy'n ddatblygiad neu'n ddefnydd derbyniol neu'r hyn nad yw'n dderbyniol, neu osod cyfyngiadau er mwyn eithrio datblygiadau penodol mewn dosbarth defnydd. Gallant hwyluso newid defnydd, gwaith addasu, estyniadau a datblygiadau mewnlenwi, gan ddisodli llawer o geisiadau cynllunio bach a fyddai fel arall yn cael eu cymeradwyo fel mater o reol.

Gall GDLlau hefyd gael eu defnyddio ar gynlluniau defnydd cymysg a safleoedd tai a chyflogaeth mwy o faint, er mwyn cyflwyno datblygiad sy'n cydymffurfio â phrif gynllun neu god dylunio a bennwyd ymlaen llaw.

Ceir manylion am weithredu GDLlau yng Nghymru yng *Nghylchlythyr 003/2012 Llywodraeth Cymru Canllawiau ar Ddefnyddio Gorchymyn Datblygu Lleol*[4] a *Gorchmynion datblygu lleol: effeithiau ac arferion da*[5]. Gall swyddogion Llywodraeth Cymru gynnig rhagor o gymorth a chyngor ar ddefnyddio GDLlau yn effeithiol.

---

4 https://llyw.cymru/gorchmynion-datblygu-lleol-canllawiau-i-awdurdodau-cynllunio-lleol-cylchlythyr-0032012

5 https://gov.wales/local-development-orders-guidance-local-planning-authorities-circular-0032012



## Teithio llesol: ymarfer corff a dulliau teithio a ailddarganfyddir

Drwy argyfwng Covid-19, rydym wedi gweld y newidiadau na welwyd eu tebyg o'r blaen sy'n effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau beunyddiol, gan gynnwys sut a pham rydym yn teithio. Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd, effeithiwyd ar bob dull trafnidiaeth. Rydym wedi gweld gostyngiadau mawr yn lefelau traffig modur ar bob rhan o'r rhwydwaith ffyrdd, llai o ddefnydd o fysiau a threnau, lefelau uchel o weithio gartref a chyfraddau cerdded a beicio uwch, ar gyfer teithiau hanfodol ac ymarfer corff dyddiol.

Er budd ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n lles, mae angen inni adeiladu ar y newid cadarnhaol mewn dulliau trafnidiaeth a welwn ar hyn o bryd. Mae angen inni sicrhau bod y newid o geir preifat i ddulliau teithio cynaliadwy a llesol ar gyfer ein teithiau bob dydd yn ôl ac ymlaen i leoedd ac o fewn lleoedd, heb achosi anghydraddoldebau anfwriadol, yn parhau yn yr hirdymor. Gellid gwneud y seilwaith cerdded a beicio cynyddol a grewyd dros dro i ddarparu ar gyfer ein newid mawr i deithio llesol yn ystod y cyfnod hwn yn barhaol er mwyn parhau i gefnogi ffyrdd o fyw iach a chysylltu cymunedau.

Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae o ran parhau i leihau'r angen i deithio a chreu lleoedd sy'n cefnogi teithio cynaliadwy a llesol. Mae angen i'r system gynllunio gefnogi datblygiadau ar safleoedd yn y lleoliadau cywir, lle y gellir eu cyrraedd drwy ddulliau teithio llesol a chynaliadwy heb fod angen car. Mae'n rhaid iddi fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl wneud dewisiadau teithio cynaliadwy ac iach ar gyfer eu teithiau bob dydd a hamdden.


Mae'n rhaid i'r system gynllunio sicrhau bod y lleoliadau a ddewisir a dyluniad canlyniadol datblygiadau newydd yn cefnogi dulliau teithio cynaliadwy ac yn sicrhau eu bod mor hygyrch â phosibl drwy gerdded a beicio. Dylai datblygiadau newydd wella ansawdd lle a chreu cymdogaethau diogel, cymdeithasol ac atyniadol lle mae pobl am gerdded, beicio a mwynhau. Ni ddylem hyrwyddo safleoedd lle mae'n annhebygol y bydd darpariaeth cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus dda. Mae'n rhaid defnyddio sgiliau dylunio trefol ac mae'n rhaid adeiladu gwell mannau a darpariaeth ar lwybrau sy'n bodoli eisoes yn ogystal â rhai newydd.

Mae PCC yn amlinellu'r hierarchaeth drafnidiaeth gynaliadwy a ddylai fod yn ystyriaeth allweddol wrth baratoi cynlluniau datblygu, gan gynnwys dyraniadau safleoedd, ac a ddylai gael ei defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'n hyrwyddo'r broses o ddarparu safleoedd sydd wedi cael eu lleoli, eu dylunio a'u cefnogi gan seilwaith sy'n blaenoriaethu mynediad a symudiadau drwy ddulliau teithio llesol a chynaliadwy. Dylid defnyddio'r hierarchaeth i leihau'r angen i deithio ac atal datblygiadau sy'n dibynnu ar geir mewn lleoliadau anghynaliadwy.






## Llawlyfr Strydoedd




Gan fod strydoedd a mannau cyhoeddus mor bwysig i lwyddiant cymdeithasol ac economaidd trefi a dinasoedd, yn ogystal ag iechyd a lles pobl sy'n byw yno, mae'n rhaid i ni ddysgu o'r sefyllfa bresennol ac adeiladu ar hyn fel rhan o strategaethau adfer.

Gyda llai o geir ar y ffyrdd, mae swyddogaeth 'lle' strydoedd wedi cael blaenoriaeth dros eu swyddogaeth 'symud'.

Ar strydoedd ac mewn mannau cyhoeddus eraill, yn enwedig parciau lleol bach a sgwariau, rydym wedi bod yn gwneud ymarfer corff ac mae plant wedi bod yn chwarae. Ac ar strydoedd hefyd rydym wedi cael cyfle i ryngweithio â phobl eraill.

Gan fod ymarfer corff a chysylltiadau cymdeithasol mor bwysig i'n hiechyd a'n lles, mae'r pandemig wedi atgyfnerthu'r angen am strydoedd sydd wedi'u dylunio'n dda o safbwynt pobl. Mae hyn yn rhan o sail y polisi 'strydoedd llesol a chymdeithasol' yn PCC a gefnogir gan y *Llawlyfr Strydoedd*[6] a'i ganllaw ategol *Llawlyfr Strydoedd 2*[7]. Mae PCC yn glir y dylai strydoedd gael eu dylunio ar sail egwyddorion dylunio trefol yn hytrach na'r dull confensiynol a arweinir gan beirianneg ym Mwletin Dylunio 32 sydd bellach wedi'i ddisodli.

Dylai cynllunwyr barhau i herio uniongrededd, meddylfryd a chynigion datblygu sy'n seiliedig ar hen arferion a safonau, megis y rhai ym Mwletin Dylunio 32, a hyrwyddo creadigrwydd, cydweithio a dyluniadau stryd sy'n ymateb i'r canllawiau yn y Llawlyfr Strydoedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi penderfyniadau o'r fath er mwyn helpu i greu lleoedd gwell.

---

6 https://llyw.cymru/llawlyfr-strydoedd-strydoedd-preswyl
7 https://llyw.cymru/llawlyfr-strydoedd-strydoedd-preswyl

## Adfywio canol ein trefi

Mae'r cyfyngiadau symud oherwydd Covid-19 wedi golygu bod ein canolfannau manwerthu a masnachol wedi bod yn wag heblaw am y bobl hynny sy'n siopa am eitemau hanfodol. Daeth archfarchnadoedd a'r siopiau nwyddau cyfleuster yn rhai o'r ychydig siopau sydd wedi parhau i fasnachu, a hynny ar adeg pan oedd rhai sectorau manwerthu eisoes mewn trafferthion. Mae'r canlyniadau economaidd wedi golygu bod llawer o fanwerthwyr yn cael trafferthion ariannol a bydd hyn yn arwain at gyfraddau eiddo gwag uwch ym mhob un o'n canolfannau masnachol.

Roedd cystadleuaeth ar-lein â manwerthwyr yng nghanol ein trefi yn gryf cyn yr argyfwng; daw'r sefyllfa hon yn fwy amlwg wrth i fwy o fanwerthwyr gynyddu eu presenoldeb ar-lein ac wrth i fwy o bobl ymgyfarwyddo â gwneud y rhan fwyaf o'u siopa am eitemau nad ydynt yn hanfodol ar-lein.



Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi gweld aileni darparu gwasanaethau lleol gan fanwerthwyr neu fusnesau bach, mewn ardaloedd gwledig a threfol; dylai'r ysbryd entrepreneuraidd hwn gael ei gydnabod a'i gefnogi gan y system gynllunio.

Rydym yn cydnabod bod canolfannau manwerthu a masnachol yn creu gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd ac yn ganolbwynt i amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau/swyddogaethau diwylliannol, sy'n cefnogi anghenion cymunedau lleol. Maent yn hygyrch iawn i ddulliau teithio gwahanol a nhw yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd. Mae angen manteisio i'r eithaf ar y sefyllfa allweddol hon yn ein cymdeithas.

Mae'n rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r sefyllfa hon drwy sicrhau y gall ein canolfannau manwerthu a masnachol weithredu mor hyblyg â phosibl. Mae hyn yn dechrau drwy nodi gweledigaeth glir ar gyfer pob canolfan mewn CDLlau yn ogystal â phennu ffiniau realistig a synhwyrol i'r ganolfan, a nodi safleoedd i'w hailddatblygu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid ailasesu rôl a swyddogaeth ardaloedd siopa sefydledig ac weithiau bydd angen gwneud penderfyniadau anodd am ddyfodol rhai o'r canolfannau hyn. Bydd prif gynllun yn adnodd defnyddiol iawn yn hyn o beth.

Yn allweddol i hyn bydd y defnydd o fannau awyr agored yng nghanol ein trefi a meddwl am y ffordd rydym yn cynllunio'n rhagweithiol ar gyfer y rhain wrth i'r angen i gadw pellter cymdeithasol barhau. Dylid ystyried gwneud defnyddiau creadigol o'n mannau agored yng nghanol trefi, gan gynnwys creu mannau newydd mewn ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio megis lleiniau gwag a meysydd parcio yn ogystal â defnyddio palmentydd a phriffyrdd a mannau gwyrdd trefol i hwyluso mannau mawr agored a fydd yn helpu busnesau i weithredu a hefyd yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel tra byddant yn cymdeithasu.

Dylai ein canolfannau ddod yn lleoedd lle mae amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu, cyflogaeth, masnachol, cymunedol, hamdden, iechyd a'r sector cyhoeddus yn dod ynghyd i greu gweithgarwch er mwyn eu gwneud yn hyfyw fel cyrchfannau poblogaidd unwaith eto. Gallai mannau cydweithio lleol, hyblyg hefyd fod yn elfen newydd hollbwysig i gynyddu mannau gweithio. Mae defnyddiau preswyl hefyd yn allweddol i hyfywedd canolfannau, ar yr amod nad ydynt yn cyfyngu ar y gweithgareddau masnachol sy'n mynd rhagddynt a bod seinweddau yn cael eu hystyried.

Awgryma tystiolaeth na fydd defnyddiau manwerthu tradddodiadol mor gyffredin a bydd y galw am fannau manwerthu newydd yn fach iawn ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, felly bydd angen adolygu prif ardaloedd manwerthu fel mater o frys. Mae'n rhaid i hyn fod yn realistig a pheidio â chael ei wneud gan ddisgwyl y bydd deiliaid manwerthu yn dychwelyd yn y niferoedd a welwyd cyn y pandemig. Dylai polisïau afresymol ac anhyblyg gael eu herio drwy broses y cynllun datblygu, gan y bydd angen llawer mwy o syniadau creadigol i ailddychmygu ac ailbwrpasu'r ardaloedd hyn.

Dylai asesiadau manwerthu mewn cynlluniau datblygu gael eu disodli gan asesiadau o ganol tref. Ni ddylent ystyried anghenion manwerthu yn unig mwyach ond dylent ymgorffori amrywiaeth ehangach o ofynion defnydd, yn enwedig yn y sector cyflogaeth, y sector hamdden a'r sector cyhoeddus, yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r weledigaeth ar gyfer y ganolfan yn unol ag Egwyddor Canol Tref yn Gyntaf. Dylai hyn fod yn asesiad cynhwysfawr o ofynion, sy'n nodi safleoedd neu bolisïau newydd i ddiwallu'r anghenion hyn mewn lleoliadau canolog a hefyd gadw ansawdd amgylcheddol mewn mannau cyhoeddus, gan gynnwys mynediad at fannau gwyrdd a seinweddau priodol. Wrth bennu'r hyn sy'n briodol mewn canolfan sy'n bodoli eisoes, bydd yn hanfodol deall anghenion y farchnad, yn enwedig o ran deiliaid newydd neu ddarpar ddeiliaid.

Mae angen inni barhau i sicrhau bod datblygiadau'n canolbwyntio ar ein canolfannau sy'n arwain at ganlyniadau mwy cynaliadwy, yn enwedig o ran opsiynau teithio. Felly, dylai'r prawf cymalog ar gyfer datblygiadau manwerthu barhau i gael ei gymhwyso a'i estyn i bob defnydd yng nghanol tref. Bydd angen i'n lleoliadau presennol ar y cyrion gael eu rheoli'n ofalus, yn enwedig pan fo cyfleoedd ar gyfer datblygiadau newydd yn ymddangos yn y lleoliadau newydd. Ni ddylai datblygiadau newydd barhau â phatrymau teithio anghynhaliadwy.

## Lleoedd digidol – rhaff achub yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau symud

Parhau'n gysylltiedig drwy ddulliau digidol oedd un o'r ychydig gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol â ffrindiau a theulu ac mae wedi dod yn brif ffrwd fel rhan o'n bywydau gwaith drwy gydol y cyfnod o gyfyngiadau symud. Daeth ansawdd ein cysylltiadau ffonau symudol a band eang yn gysylltiedig â'n llesiant emosiynol mewn ffordd nad oedd llawer o bobl wedi'i sylweddoli o'r blaen.

Gan fod gweithio gartref yn debygol o fod yn fwy cyffredin ledled y wlad bellach, mae rhoi systemau cyfathrebu dibynadwy o ansawdd da ar waith yn bwysicach nag erioed er mwyn helpu'r adferiad economaidd a chymdeithasol.

Gall y system gynllunio chwarae rôl hollbwysig o ran darparu systemau cyfathrebu electronig. Er bod llawer o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â seilwaith band eang a ffonau symudol sefydlog yn cael budd o hawliau datblygu a ganiateir eang, dylai datblygiadau newydd ddarparu digon o seilwaith fel y gall ein cartrefi a'n busnesau gael budd o wasanaeth o ansawdd uchel o adeg meddiannu. Gellir defnyddio'r system gynllunio i ddylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau newydd mewn ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth bresennol yn wael, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.



Lle y bo modd, dylid harneisio darpariaeth seilwaith digidol mewn datblygiadau newydd, megis cynlluniau ynni adnewyddadwy, i wella cysylltiadau ar gyfer y bobl hynny sy'n byw yn yr ardal leol.

Dylid cydnabod bod ceisiadau cynllunio ar gyfer seilwaith digidol yn hanfodol i'r cyfnod adfer yn sgil Covid-19 a dylai awdurdodau cynllunio roi blaenoriaeth i benderfynu arnynt. Dylai datblygwyr ymgysylltu'n rhagweithiol ar eu cynlluniau â chymunedau ac awdurdodau cynllunio fel y gall hyn gael ei gyflwyno mor effeithlon â phosibl.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant a rheoleiddwyr i sicrhau bod ein polisïau a'n rheoliadau cynllunio yn rhoi'r cydbwysedd priodol rhwng sicrhau y gall seilwaith cyfathrebu electronig fynd rhagddo mor effeithlon â phosibl, a hefyd gadw amwynder y cymunedau o'i amgylch a nodweddion arbennig ein hardaloedd a'n hadeiladau gwarchodedig.

Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant symudol i ddiweddaru'r Cod Arfer Orau i Weithredwyr Symudol a helpu i gefnogi cyflwyno prosiect *Rhwydwaith Gwledig a Rennir*[8]. Bydd y rhain yn helpu i sicrhau bod y system gynllunio yn rhedeg yn ddidrafferth o ran helpu i gynyddu darpariaeth symudol ledled Cymru.

Byddwn hefyd yn parhau i adolygu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gweithredwyr rhwydweithiau symudol yn ogystal â rhoi Cyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn ag antenau cell fach ar waith erbyn diwedd y flwyddyn er mwyn helpu i gyflwyno'r rhwydwaith 5G.

## Arferion gwaith sy'n newid – yr angen am dir cyflogaeth yn y dyfodol

Mae ein gweithleoedd wedi mynd drwy newid enfawr yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio gartref, yn enwedig yn sectorau'r economi sy'n seiliedig ar waith swyddfa. Hyd yn oed pan gaiff yr holl gyfyngiadau eu codi, mae hyn yn debygol o effeithio ar lle rydym yn gweithio yn y tymor hwy. Mae pobl a sefydliadau'n dod yn gyfarwydd â gweithio'n hyblyg a'r buddiannau a'r arbedion posibl (yn ogystal â'r effeithiau cadarnhaol ar ddatgarboneiddio a lleihau teithio diangen) a ddaw yn ei sgil. Mae hyn, yn ei dro, yn debygol o gael effeithio ar y gofyn am weithleoedd yn y dyfodol ac mae potensial y bydd cryn dipyn o'r stoc bresennol yn mynd yn stoc dros ben.

Mae hyn oll yn digwydd yng nghyd-destun ehangach effaith economaidd y pandemig a Brexit a fydd yn effeithio ar bob sector diwydiannol a chyflogaeth.

Bydd angen i'r system gynllunio ymaddasu'n gyflym i'r newidiadau economaidd a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r pandemig a allai gyflymu i raddau helaeth dueddiadau sydd eisoes wedi dechrau digwydd. Bydd angen ailystyried rhagolygon economaidd er mwyn sicrhau bod y cyflenwad tir ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yn ddigonol ac yn addas at y dyfodol, gan ystyried yr angen am ddewis o safleoedd.

Bydd angen adolygu dyraniadau cyflogaeth yng ngoleuni'r newidiadau hyn ac yn y mannau hynny lle y mae angen newid, dylid newid i'r defnydd gorau o dir ar gyfer creu lleoedd. Efallai y bydd hyn yn golygu y caiff safleoedd mewn ardaloedd trefol sydd â chysylltiadau cyhoeddus a theithio llesol da eu dynodi ar gyfer defnyddiau cymysg eraill. Gall hefyd olygu y caiff safleoedd anghynaliadwy dros ben eu dileu mewn cynlluniau datblygu'n gyfan gwbl.

O ran safleoedd cyflogaeth strategol, dylai awdurdodau cynllunio lleol barhau i asesu a oes angen y rhain o hyd neu sut mae anghenion wedi newid o bosibl, a chydweithio ledled rhanbarth i ddynodi tir, os oes tebygolrwydd realistig y caiff ei ddatblygu yn y tymor canolig.

Gyda chynnydd yn y niferoedd sy'n gweithio gartref, bydd angen hefyd inni feddwl yn wahanol am y gweithleoedd hyblyg a ddarparwn er mwyn i weithwyr o bell ddod ynghyd i rannu syniadau a mynediad at amgylchedd a chyfleusterau'r swyddfa. Ein canolfannau manwerthu a chanol ein trefi sydd fwyaf addas ar gyfer hyn a byddant yn fodd i atgyfnerthu eu ffyniant (gweler uchod). Bydd hyn yn gofyn am arloesedd ar ran datblygwyr ac awdurdodau cynllunio, gan gynnwys nodi safleoedd ac adeiladau addas yng nghanol cymunedau lle y gallant fod yn hygyrch mewn ffordd gynaliadwy.

Yn ogystal â'n datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu economaidd, rydym hefyd wedi llunio canllawiau technegol ar adolygiadau o dir cyflogaeth[9].

---

8 https://srn.org.uk/

9 https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/economic-development-evidence-base.pdf

## Ailddeffro sector twristiaeth a sector diwylliannol Cymru

'Hwyl Fawr. Am y Tro' fu'r cyfarwyddyd i dwristiaid a oedd wedi gobeithio darganfod ein hamgylchedd hardd, ein hatyniadau i dwristiaid a'n llety ymwelwyr mewn ardaloedd gwledig a threfol. Ni fydd yr effaith economaidd uniongyrchol ar y sector twristiaeth yn gwbl hysbys am beth amser, ond mae'n amlwg y bydd colli busnes dros gyfnodau prysur y Pasg a'r haf yn cael goblygiadau mawr i lawer o fusnesau a chyflogeion.

Mae'r argyfwng wedi cwtogi ar weithgarwch diwylliannol megis cerddoriaeth fyw, sinema, theatr, ymweld ag amgueddfeydd a chwaraeon a hamdden ffurfiol. Mae cymryd rhan ac ymddiddori mewn diwylliant yn hanfodol i'n llesiant cymdeithasol, ond mae'r asedau hyn hefyd yn rhannau allweddol o'n heconomïau lleol. Mae cefnogi parhad ein ffordd o fyw, boed hynny mewn lleoedd trefol neu wledig, yndibynnu ar allu'r asedau hyn i weithredu mewn ffyrdd sy'n diogelu iechyd pawb sy'n gweithio yn yr asedau hyn neu'n eu defnyddio, yn ogystal â'u ffyniant fel busnesau lleol.

Mae'r system gynllunio yn gadarn o blaid diwydiant twristiaeth a diwylliant amrywiol a chynaliadwy. Mae'n creu swyddi ac incwm i Gymru, gan alluogi pobl ledled y byd i fwynhau a phrofi lletygarwch, tirwedd a diwylliant Cymru. Rydym am i'r sector hwn ailddechrau ac adfer mor fuan ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny a chefnogwn ymdrechion priodol i feithrin ansawdd ac amrywiaeth yn yr economi ymwelwyr a diwylliannol. Mae'n bwysig iawn bod cyfleoedd twristiaeth a diwylliant a all sicrhau buddiannau cymunedol i'r ardal leol yn cael eu cefnogi mewn ardaloedd arfordirol a gwledig. Gall datblygiadau twristiaeth a diwylliannol gynnig ffordd gadarnhaol o ailddefnyddio adeiladau gwag, adeiladau hanesyddol neu dir nas defnyddir fel rhan o gynlluniau adfywio.

Gall asedau diwylliannol a hanesyddol helpu i ddenu ac ategu buddsoddiad yn ein cymunedau. Gallant ychwanegu gwerth i fusnesau o ran y cyfleoedd economaidd ehangach a allai ddod yn eu sgil. Mae'r gwerth i'w gael i fusnesau newydd drwy'r cyfleoedd economaidd ehangach y gall ein hasedau diwylliannol a hanesyddol eu cynnig yn



debygol o wneud Cymru yn lle mwy atyniadol i fuddsoddi ynddo yn ystod y cyfnod adfer ar ôl Covid-19. Mae'n bwysig bod unrhyw fuddsoddiad newydd yn gweithio gyda'n hasedau diwylliannol a hanesyddol i sicrhau'r buddiannau mwyaf a chyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu cynaliadwy.

Wrth i'n hasedau twristiaeth a diwylliannol ddechrau ailagor, bydd angen mesurau cadw pellter cymdeithasol sensitif fel y gallant gael eu gwerthfawrogi yn eu rhinwedd eu hunain. Mewn modd tebyg i ganol ein trefi, bydd angen cynllunio a rheoli mannau awyr agored o amgylch asedau twristiaeth a diwylliannol yn ofalus er mwyn galluogi diwydiannau cysylltiedig (megis caffis a bariau) i weithredu'n effeithiol. Bydd angen hefyd inni feddwl am fynediad priodol i gyfleusterau a safleoedd a'i reoli'n briodol, gan gynnwys mynediad drwy deithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau preifat.

Mae PCC yn nodi'r fframwaith cadarnhaol ar gyfer twristiaeth a diwylliant sy'n annog y sector i wella'r ymdeimlad o le mewn mannau poblogaidd i dwristiaid a datblygu cyfleoedd a phrofiadau diwylliannol newydd mewn cyrchfannau newydd. Cydnabyddir hefyd bwysigrwydd twristiaeth i'n trefi arfordirol, a'i rôl bosibl mewn prosiectau adfywio.

## Seilwaith gwyrdd, iechyd a lles a chydnerthedd ecolegol

Mae rhwydweithiau ecolegol cydnerth, er yn hollbwysig i adferiad natur, hefyd yn rhan annatod o'n hiechyd a'n lles ac yn rhan o'n hymateb i newid yn yr hinsawdd. Mae'r argyfwng wedi tynnu sylw at bwysigrwydd mynediad at fannau gwyrdd a chyfleoedd i gysylltu â'r amgylchedd naturiol a hanesyddol. Mae wedi tynnu sylw at y ffaith bod mynediad hawdd ac agosrwydd i fannau gwyrdd o ansawdd yn brin iawn mewn rhai ardaloedd ac i rai rhannau o'n cymunedau a dylid blaenoriaethu camau gweithredu i leihau anghydraddoldebau o'r fath fel rhan o weithgareddau adfywio a gwella ehangach fel mater o gyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol. Ar yr un pryd, mae'n werth nodi sut mae bioamrywiaeth wedi cael cyfle i ffynnu, gyda llai o deithiau diangen a mwy o gerdded a beicio.

Mae'n rhaid inni wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a gwneud ecosystemau'n fwy cydnerth, yn ogystal â rhoi cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd sy'n seiliedig ar werthfawrogi a galluogi mynediad i'r amgylchedd naturiol a hanesyddol. Mae'r system gynllunio yn gyfrifol am sicrhau seilwaith gwyrdd, sy'n chwarae rôl hanfodol yn y broses o greu lleoedd a'n hymdeimlad o lesiant ac mae'n rhan annatod o ansawdd y mannau lle rydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.

Bydd camau i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a helpu adferiad byd natur yn aml yn ategu'r hyn sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, yn diogelu iechyd a lles, ac yn rhoi sylfaen dros dwf gwyrdd.

Mae'n rhaid i'r system gynllunio roi blaenoriaeth i roi atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys asedau seilwaith gwyrdd a rhwydweithiau fel rhan hanfodol o'n seilwaith lleol a chenedlaethol a diogelu rhwydweithiau ecolegol cydnerth a sicrhau budd clir o ran bioamrywiaeth. Drwy ganolbwyntio ar atebion sy'n seiliedig ar natur fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cynigion, cawn gyfle i gydbwyso cymdeithas o'r newydd o blaid iechyd a lles a seilwaith gwyrdd a chynyddu gwerth clir ein bioamrywiaeth.

Mae buddiannau seilwaith gwyrdd yn bwysig ar bob graddfa o ran creu lleoedd a byddant yn fuddiol o ran gwella iechyd a lles.

Dylai galluogi a darparu seilwaith gwyrdd olygu edrych o'r newydd ar ddefnyddiau traddodiadol a phresennol o fannau yn ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi, er mwyn blaenoriaethu cyfleoedd ar dir cyhoeddus i gysylltu â natur a galluogi hamdden, gweithgareddau cymunedol awyr agored a theithio llesol, yn ogystal â chydnabod buddiannau cronnol ehangach mannau preifat, megis gerddi, a buddiannau gwell seinweddau o ganlyniad i hynny.

Gall datblygiadau, gan gynnwys darparu seilwaith gwyrdd, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at fynd i'r afael â'r risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â dadfeilio a difrod yn y gorffennol hefyd sicrhau, mewn ffordd gadarnhaol, fod tir yn cael ei ddefnyddio'n fuddiol unwaith eto i gymunedau ac am resymau sy'n ymwneud â gwella cydnerthedd ecosystemau.

Byddwn yn paratoi rhagor o ganllawiau ar bolisïau seilwaith gwyrdd yn yr FfDC, a fydd yn ceisio grymuso a galluogi seilwaith gwyrdd a rhwydweithiau cydnerth ecolegol.

Rydym wedi dadlau'n anffurfiol o blaid rhoi canllawiau i gefnogi'r dulliau presennol o asesu seilwaith gwyrdd sy'n cael eu datblygu. Byddai hyn, unwaith eto, yn ceisio rhoi hwb i'r mentrau presennol sy'n cael eu datblygu gan awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru, a'u hategu, ac yn creu cysylltiadau â mentrau megis *Adeiladu gyda Natur'*[10], yn hytrach na mynnu camau gweithredu penodol.

## Gwella ansawdd aer a seinweddau er mwyn sicrhau gwell iechyd a lles

Mae'r argyfwng wedi tynnu sylw at y cysylltiad rhwng ansawdd aer ac iechyd ac effaith sŵn, sef sŵn diangen neu niweidiol, ar ansawdd ein bywydau. Mae ymchwil eisoes yn dangos effaith ansawdd aer gwael ar y rhai sydd eisoes â chyflyrau anadlol a chyflyrau'r galon, plant a phobl hŷn, sy'n agored iawn i effeithiau niweidiol llygredd aer ar eu hiechyd. Gall sŵn, yn y byrdymor, amharu ar gwsg a chynyddu lefelau straen, dicter neu flinder, yn ogystal â tharfu ar weithgareddau pwysig megis dysgu, gweithio ac ymlacio. Gall amlygiad i seiniau uchel achosi niwed i'r clyw, a gall amlygiad i sŵn yn yr hirdymor gynyddu ein risg o gael clefydau sy'n gysylltiedig â phwysedd gwaed uchel a chlefyd cardiofasgwlaidd.

Mae patrwm, a dyluniad, lleoedd yn cael effaith ddramatig ar ansawdd aer ac ansawdd seinweddau. Mae hyn, yn ei dro, yn dylanwadu ar brofiad ac amgyffred pobl o leoedd.

Mae'n rhaid inni ailystyried y ffordd y defnyddir mannau yn ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi gyda'r nod o leihau amlygiad i lygredd ac ystyried arferion megis asesu seinwedd a dylunio acwstig da er mwyn gwella ansawdd lleoedd. Mae datblygu ymarfer o ran asesu seinwedd a dylunio acwstig da yn golygu nad yw ffactorau megis sŵn yn 'ychwanegiad' technegol mwyach. Yn hytrach, ynghyd ag aer glân, maent yn rhan o ansawdd annatod lleoedd a dylai eu hystyriaeth fod yn rhan o atebion cynllunio a dylent arwain at fuddiannau cyffredinol. Mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig, yn enwedig yng nghyd-destun ailbwrpasu canol ein trefi. Byddwn yn cwblhau'r gwaith o ddiwygio[11] TAN 11 Sŵn er mwyn cyflawni'r polisi yn PCC ar ansawdd aer, seinwedd a sŵn a byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr amrywiol i ddatblygu'r gwaith hwn.

[10] https://www.buildingwithnature.org.uk/about
[11] https://llyw.cymru/ansawdd-aer-seinwedd-adolygiad-o-tan-11

Llun wedi'i ddefnyddio trwy garedigrwydd Cyngor Bwrdeistref Sir Caerffili.

